Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Niferoedd myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn gyfredol 2024/25 a rhagolygon niferoedd myfyrwyr ar gyfer y cyfnod 2025/26 i 2028/29

## Cyflwyniad

1 Yn gyffredinol, dylid defnyddio'r diffiniadau a gynhwysir yng nghylchlythyr Medr/2024/09, *Arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch 2024/25* (HESES24) wrth lunio'r wybodaeth rhagolygon myfyrwyr sy'n ofynnol gan y cylchlythyr hwn yn Atodiad E Tablau SPF1 i SPF3.

2 Dylai'r holl niferoedd a ddychwelir yn Nhablau SPF1, SPF2 ac SPF3 yn yr arolwg hwn gynrychioli cyfrifau'r cofrestriadau a gwblhawyd ac nid niferoedd cyfwerth ag amser llawn (CagALl). Dylai cofrestriadau blwyddyn ryngosod allan gael eu cyfrif fel 1.

3 Dylai cofrestriadau yn y flwyddyn gyfredol a rhagolygon cofrestriadau myfyrwyr gyfateb i'r cofrestriadau tybiedig sy'n cwblhau'r flwyddyn astudio, hynny yw ar ôl ystyried y rhai nad ydynt yn ei chwblhau. Gellir dychwelyd niferoedd amser llawn sy'n gyllidadwy gan Medr fel rhai sy'n peidio â chwblhau'n rhannol (fel a ddiffinnir yn HESES24 Atodiad H, paragraff 15). Mae'r addasiad yn berthnasol dim ond i gyrsiau amser llawn a addysgir; ni ddylid gwneud unrhyw addasiad ar gyfer cofrestriadau ymchwil na rhan-amser.

4 Y rhagolygon niferoedd myfyrwyr sydd i'w cofnodi yn SPF3 yw'r rhai sydd y tu allan i boblogaeth HESES; fodd bynnag dylai diffiniadau HESES24 ddal i gael eu defnyddio i ddiffinio'r dull astudio at ddiben y tabl hwn. Dylid defnyddio canllawiau Cofnod Alltraeth Cyfanredol HESA ar gyfer 2024/25 wrth grynhoi'r data rhagolygon sydd i'w ddychwelyd yn SPF3 ar gyfer myfyrwyr y tu allan i boblogaeth HESES24 sy'n astudio yn yr UE neu dramor (y tu allan i'r UE). Os oes gan SAUau fyfyrwyr eraill sydd y tu allan i boblogaeth HESES24, dylid dychwelyd y rhain yn y categori 'Myfyrwyr Eraill'. Dylai myfyriwr tramor sydd wedi'i freinio i sefydliad yn y DU ond y tu allan i Gymru (HESES24 Atodiad C, paragraff 23), gael ei ddychwelyd yn SPF1 fel myfyriwr tramor, a pheidio â chael ei gynnwys yn SPF3 gan y dylai gael ei gyfrif ym mhoblogaeth HESES.

5 Os nad yw myfyrwyr yn cael eu dychwelyd ar unrhyw un o gofnodion HESA ni ddylent gael eu dychwelyd yn SPF 1-3. Ceir rhagor o wybodaeth yn HESES24 Atodiad H ac Atodiad K.

6 Dylai tybiaethau fod yn gyson â'r rhai a gyflwynir yn **Atodiad A** y cylchlythyr hwn, ac unrhyw dybiaethau perthnasol eraill a ddefnyddiwyd i baratoi'r rhagolygon ariannol.

## Cynnwys y ffurflen

7 Bydd neges e-bost yn cael ei hanfon at bob sefydliad gyda llyfr gwaith Excel wedi'i atodi a hwnnw'n cynnwys chwe dalen waith i'w cwblhau sy'n cyfateb i'r tablau a ddangosir yn Atodiad E, a'r tablau rhagolygon incwm ffioedd sydd i'w dychwelyd ar

gyfer Atodiadau C1a, C1d ac C2. Mae tablau Atodiad C1 ac C2 wedi'u cynnwys yn yr un llyfr gwaith i'w gwneud yn bosibl cyfrifo gwiriadau hygrededd sy'n cymharu niferoedd myfyrwyr ag incwm ffioedd. Ceir rhagor o wybodaeth am dablau Atodiad C1 ac C2 yn yr adran **Rhan 1 – Rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod 2024/25 i 2028/29** (paragraffau 6 i 8 yng nghorff y prif gylchlythyr). Gofynnir am ymateb cydgysylltiedig sy'n cynnwys Atodiadau C1 ac C2 ac Atodiad E i'w gwneud yn bosibl cynnal gwiriadau hygrededd. Mae pob ffeil yn cynnwys rhagosodiad â phedwar nod sy'n adnabod y sefydliad. Mae'r ffeil ****_AnnexCandE.xlsx yn cynnwys y dalenni canlynol:

**Atodiad C1a** Dadansoddiad o incwm ffioedd myfyrwyr cartref. Wedi'i gynnwys yma mae incwm ffioedd sy'n briodoladwy i gofrestriadau israddedig amser llawn a rhyngosod a TAR (SAT) (heb gynnwys y GIG/AaGIC) a ddychwelir yn SPF2. Hefyd, gofynnir am incwm ffioedd sy'n briodoladwy i gofrestriadau israddedig rhan-amser ac ôl-radd amser llawn a rhan-amser (a addysgir ac ymchwil gyda'i gilydd) (heb gynnwys y GIG/AaGIC) a ddychwelir ar dabl SPF2. Cyflwynwyd gwiriad hygrededd ar yr ochr dde ar bwys y tabl i ddangos ffi gyfartalog y cofrestriad i roi cymorth i wirio a bod yn sail i unrhyw dybiaethau a wnawn ar eich data. Dylai incwm sy'n gysylltiedig â myfyrwyr o Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw gael ei gynnwys.

**Atodiad C1d** Dadansoddiad o incwm ffioedd myfyrwyr tramor. Wedi'i gynnwys yma mae incwm ffioedd sy'n briodoladwy i gofrestriadau israddedig amser llawn a rhyngosod a TAR (heb gynnwys y GIG/AaGIC) a ddychwelir yn SPF2. Hefyd, gofynnir am incwm ffioedd sy'n briodoladwy i gofrestriadau israddedig rhan-amser ac ôl-radd amser llawn a rhan-amser (a addysgir ac ymchwil gyda'i gilydd) (heb gynnwys y GIG/AaGIC) a ddychwelir ar dabl SPF2. Cyflwynwyd gwiriad hygrededd ar yr ochr dde ar bwys y tabl i ddangos ffi gyfartalog y cofrestriad i roi cymorth i wirio a bod yn sail i unrhyw dybiaethau a wnawn ar eich data. Ni ddylai incwm sy'n gysylltiedig â myfyrwyr o Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw gael ei gynnwys.

**Atodiad C2** Dadansoddiad o incwm ffioedd myfyrwyr sy'n astudio'r tu allan i'r DU. Wedi'i gynnwys yma mae incwm ffioedd sy'n briodoladwy i'r cofrestriadau amser llawn a rhyngosod a rhan-amser perthnasol a ddychwelir yn SPF3. Rhennir yr incwm sy'n gysylltiedig â myfyrwyr sy'n astudio'r tu allan i'r DU yn incwm myfyrwyr o'r UE a myfyrwyr tramor (y tu allan i'r UE). Sylwer bod hyn yn cyfeirio at y lleoliad astudio ac nid statws cyllidadwy h.y. mae'n dal i fod yn ddigyfnewid o ffurflenni rhagolygon y llynedd. Cyflwynwyd gwiriad hygrededd ar yr ochr dde ar bwys y tabl i ddangos ffi gyfartalog y cofrestriad i roi cymorth i wirio a bod yn sail i unrhyw dybiaethau a wnawn ar eich data.

**SPF1** Cofrestriadau yn y flwyddyn gyfredol ar gyfer 2024/25 a chofrestriadau myfyrwyr sy'n cwblhau a ragwelir ar gyfer y cyfnod 2025/26 – 2028/29, ar gyfer pob dull astudio, lefel astudio a chategori cyllido. Dylai rhagolygon ar gyfer myfyrwyr breiniol gael eu cyfrif yn y sefydliad breinio. Ceir canllawiau ynghylch darpariaeth freiniol yn HESES24, Atodiad C. Dylid dychwelyd yr wybodaeth gan ddefnyddio'r un diffiniadau â'r rhai a ddefnyddiwyd i gwblhau Tabl 1 yn HESES24.

**SPF2** Cofrestriadau myfyrwyr cartref (cyllidadwy ac anghyllidadwy) a thramor sy'n cwblhau yn y flwyddyn gyfredol ar gyfer 2024/25, ynghyd â chofrestriadau myfyrwyr cartref (cyllidadwy ac anghyllidadwy) a thramor sy'n cwblhau a ragwelir ar gyfer y cyfnod 2025/26 – 2028/29 ar gyfer cofrestriadau israddedig amser llawn a rhyngosod a TAR (SAC), cofrestriadau israddedig rhan-amser, a chofrestriadau ôl-radd amser llawn a rhan-amser. Dylid rhannu cofrestriadau yn ôl statws preswyl (cartref; tramor). Dylid rhannu cofrestriadau rhwng pa un a ydynt yn newydd-ddyfodiad ynteu'n fyfyriwr sy'n parhau yn y sefydliad. Dylai ffigyrau fod yn gyson â data ariannol cyfatebol a ddychwelir yn Atodiadau C1a ac C1d. Cynhwyswyd gwiriadau hygrededd yn Atodiadau C1a ac C1d sy'n cyfrifo'r ffi gyfartalog y cofrestriad yn seiliedig ar ffigyrau a ddychwelir ar SPF2 felly dylid eu gwirio a gwneud sylwadau arnynt lle y bo angen, a gellir gwneud ymholiadau pellach yn eu cylch lle na ellir dwyn cymariaethau ystyrlon.

**SPF3** Cofrestriadau'r flwyddyn gyfredol ar gyfer 2024/25 a chofrestriadau myfyrwyr sy'n cwblhau a ragwelir ar gyfer y cyfnod 2025/26 – 2028/29 ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio'r tu allan i'r DU sydd y tu allan i boblogaeth HESES24 wedi'u rhannu yn ôl rhai o'r UE ac o dramor (y tu allan i'r UE) a chategori 'Myfyrwyr Eraill'. Mae hyn wedi'i grwpio yn ôl lleoliad astudio ac nid yn ôl statws cyllidadwyedd. Dylid defnyddio diffiniadau HESES24 wrth grynhoi'r data yn ôl dull astudio. Lle dychwelir data yn y categori 'Myfyrwyr Eraill', dylid cynnwys sylwebaeth yn y blwch testun a ddarperir yn SPF3 i ddarparu rhagor o wybodaeth ar ein cyfer am y myfyrwyr hyn.

**Crynodeb** Crynodeb o ddata HESES 2024/25 er mwyn cymharu/er gwybodaeth.

## Nodiadau pellach ar gwblhau'r tablau

8 Ni ddylai myfyrwyr sy'n astudio'n gyfan gwbl y tu allan i'r DU sydd naill ai wedi'u cofrestru gyda'r sefydliad sy'n adrodd neu sy'n astudio ar gyfer dyfarniad gan y sefydliad sy'n adrodd gael eu cynnwys yn SPF1-2. Yn yr un modd, ni ddylai myfyrwyr a addysgir fel rhan o drefniadau cydweithredol gyda sefydliadau addysg neu sefydliadau eraill yng Nghymru neu'r tu allan i Gymru, nas perchnogir gan y SAU yng Nghymru, nad ydynt yn drefniadau breinio, ac nad ydynt wedi'u cynnwys ym mhoblogaeth HESES24 nac wedi'u dychwelyd ar gofnod myfyrwyr HESA, gael eu cynnwys yn SPF1-2. Ar gyfer sefydliadau sydd â threfniadau o'r fath, dylai data'r flwyddyn gyfredol 2024/25 a rhagolygon ar gyfer y myfyrwyr hyn sy'n cwmpasu'r cyfnod o 2025/26 i 2028/29 gael eu dychwelyd yn SPF3 gyda sylwebaeth i gyd-fynd â hwy lle y bo angen.

9 Dylai myfyrwyr sy'n rhai tramor sydd wedi'u breinio i sefydliad yn y DU ond y tu allan i Gymru, gael eu dychwelyd yn SPF1 fel rhai tramor, ac nid eu cynnwys yn SPF3 gan y dylent gael eu cyfrif ym mhoblogaeth HESES.

10 Mae Medr yn cyllido PGR yn ddetholus. Dim ond myfyrwyr cartref mewn Unedau Asesu a gynhwysir wrth gyfrifo cyllid QR ar gyfer 2024/25 ddylai gael eu cynnwys yn y cyfrifon o gofrestriadau ymchwil ôl-radd cyllidadwy a ddychwelir yn erbyn y dull

astudio ôl-radd yn 2024/25. Caiff yr Unedau Asesu a gynhwysir yn y model cyllido QR ar gyfer 2024/25 eu hadnabod yng nghylchlythyr CCAUC W24/13HE *Dyraniadau Cyllid CCAUC ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25*. Bydd yr Unedau Asesu sydd i'w cynnwys yng nghyllid QR 2025/26 yr un fath â'r rhai a gynhwyswyd yn 2024/25, felly gellir defnyddio deilliannau cyllido 2024/25 at ddibenion rhagweld.

11 Sylwer bod y tablau'n cynnwys fformiwlâu i gyfrifo cyfansymiau rhesi a cholofnau. Ni ddylid addasu fformiwlâu yn y rhesi hyn; fodd bynnag, os dewch o hyd i unrhyw wallau, cysylltwch â sicrwydd@medr.cymru er mwyn i set newydd o dablau gael ei hanfon.

## Gwiriadau dilysu a hygrededd ar y data

12 Mae gwiriadau dilysu wedi cael eu cynnwys yn Nhablau SPF1-3, ar yr ochr dde ar bwys y tablau. Dylai sefydliadau sicrhau eu bod wedi llwyddo yn y gwiriadau dilysu hyn cyn dychwelyd y data atom ni.

13 Mae tablau Atodiadau C1a, C1d ac C2 wedi eu cynnwys yn y llyfr gwaith hefyd ac maent yn cynnwys gwiriadau hygrededd ar y dde ar bwys y tablau sy'n cymharu niferoedd myfyrwyr ag incwm ffioedd i sicrhau na wneir unrhyw wallau yn y tablau incwm ffioedd a rhagolygon myfyrwyr. Ceir gwybodaeth am gwblhau Atodiad C yn yr adran **Rhan 1 – Rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod 2024/25 i 2028/29** (paragraffau 6 i 8 yng nghorff y prif gylchlythyr). Dylai sefydliadau amlygu unrhyw resymau a allai gynhyrchu canlyniadau annisgwyl yn y gwiriadau hyn.